Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

# Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 3) Llywodraeth Cymru ar y Bil Diogelu Data a Gwybodaeth Ddigidol

Ionawr 2024

senedd.cymru

# 1. Y cefndir

## Bil Diogelu Data a Gwybodaeth Ddigidol Llywodraeth y DU

**1.** Cafodd Bil Diogelu Data a Gwybodaeth Ddigidol ei gyflwyno yn wreiddiol yn Nhŷ'r Cyffredin ar 18 Gorffennaf 2022. Fodd bynnag, cafodd y Bil hwn ei ohirio wedi hynny cyn ei ail ddarlleniad.

**2.** Cafodd y Bil Diogelu Data a Gwybodaeth Ddigidol (Rhif 2)[1] ei gyflwyno yn Nhŷ'r Cyffredin a chafodd ei ddarlleniad cyntaf ar 8 Mawrth 2023.

**3.** Trosglwyddwyd y Bil Diogelu Data a Gwybodaeth Ddigidol (Rhif 2) i sesiwn 2023-24 Senedd y DU a daeth yn Fil Diogelu Data a Gwybodaeth Ddigidol[2] ("y Bil"). Noddir y Bil gan yr Adran dros Wyddoniaeth, Arloesi a Thechnoleg.

**4.** Cyflwynwyd y Bil yn Nhŷ'r Cyffredin ar 8 Tachwedd 2023, a chafodd ei drydydd darlleniad ar 29 Tachwedd 2023.

**5.** Cynhaliwyd y darlleniad cyntaf yn Nhŷ'r Arglwyddi ar 6 Rhagfyr 2023, ac yn fuan wedyn cafwyd ail ddarlleniad ar 19 Rhagfyr. Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, nid oedd y cyfnod Pwyllgor yn Nhŷ'r Arglwyddi wedi'i drefnu eto.

**6.** Mae'r Nodiadau Esboniadol i'r Bil yn rhoi'r trosolwg a ganlyn:

> *"This Bill is intended to update and simplify the UK's data protection framework with a view to reducing burdens on organisations while maintaining high data protection standards."*[3]

**7.** Mae teitl hir y Bil yn nodi ei ddiben:

> *"Make provision for the regulation of the processing of information relating to identified or identifiable living individuals; to make provision about services consisting of the use of information to ascertain and verify facts about individuals; to make provision about access to customer data and business data; to make provision about privacy and electronic communications; to make provision about services*

[1] Bil Diogelu Data a Gwybodaeth Ddigidol (Rhif 2), fel y'i cyflwynwyd (Bil 265)
[2] Bil Diogelu Data a Gwybodaeth Ddigidol, fel y'i cyflwynwyd (Bil 1)
[3] Bil Diogelu Data a Gwybodaeth Ddigidol, fel y'i cyflwynwyd, Nodiadau Esboniadol, Tachwedd 2023

*for the provision of electronic signatures, electronic seals and other trust services; to make provision about the disclosure of information to improve public service delivery; to make provision for the implementation of agreements on sharing information for law enforcement purposes; to make provision about the keeping and maintenance of registers of births and deaths; to make provision about information standards for health and social care; to establish the Information Commission; to make provision about oversight of biometric data; and for connected purposes."*[4]

## Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol a Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol Llywodraeth Cymru (Memorandwm Rhif 2)

**8.** Yn unol â Rheolau Sefydlog 29.1 a 29.2, mae'n ofynnol gosod memorandwm cydsyniad deddfwriaethol pan fydd Bil perthnasol yn y DU yn gwneud darpariaeth o ran Cymru at unrhyw ddiben sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd neu sy'n addasu ei chymhwysedd deddfwriaethol.

**9.** Ar 29 Mawrth 2023, gosododd y Gwir Anrhydeddus Mark Drakeford AS, Prif Weinidog Cymru, Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol (y Memorandwm) gerbron y Senedd mewn cysylltiad â'r Bil.[5]

**10.** Gosododd y Prif Weinidog Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 2) ar 25 Mai 2023.[6]

**11.** Gwnaethom gyhoeddi adroddiad ar y Memorandwm a Memorandwm Rhif 2 ar 24 Gorffennaf 2023 (ein hadroddiad cyntaf).[7]

**12.** Mae paragraffau 14 a 15 o'n hadroddiad cyntaf yn disgrifio'r gwaith rhynglywodraethol ar y Bil.

**13.** Nododd paragraffau 16 i 19 a 30 i 32 o'n hadroddiad cyntaf gymalau yn y Bil yr oedd Llywodraeth Cymru, ar y pryd, yn ystyried bod angen cydsyniad y Senedd

[4] Bil Diogelu Data a Gwybodaeth Ddigidol, fel y'i cyflwynwyd (Bil 1)
[5] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, Y Bil Diogelu Data a Gwybodaeth Ddigidol (Rhif 2), Mawrth 2023
[6] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 2), Y Bil Diogelu Data a Gwybodaeth Ddigidol (Rhif 2), 25 Mai 2023
[7] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Adroddiad ar Femoranda Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Diogelu Data a Gwybodaeth Ddigidol (Rhif 2), Gorffennaf 2023

ar eu cyfer, a lle roedd anghytundeb rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU.

**14.** Mae paragraffau 20 i 26 a 33 i 46 o'n hadroddiad cyntaf yn nodi safbwynt Llywodraeth Cymru ar y Bil, fel y'i nodwyd yn y Memorandwm a Memorandwm Rhif 2.

**15.** Mae paragraffau 47 i 60 o'n hadroddiad cyntaf yn ystyried y dynamig rhwng y DU a'r UE sy'n berthnasol i'r Bil.

**16.** Roedd ein hadroddiad cyntaf yn cynnwys chwe chasgliad a saith argymhelliad.

**17.** Ymatebodd y Prif Weinidog i'n hadroddiad cyntaf ar 5 Medi 2023.[8]

## Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 3) Llywodraeth Cymru

**18.** Ar 23 a 27 Tachwedd 2023, cyflwynodd Llywodraeth y DU welliannau i'r Bil i'w hystyried yn ystod Cyfnod Adrodd Tŷ'r Cyffredin.

**19.** Gosododd y Prif Weinidog Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 3)[9] ar 11 Rhagfyr 2023.

**20.** Cytunodd y Pwyllgor Busnes y dylai'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad a'r Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol gyflwyno adroddiad ar Femorandwm Rhif 3 erbyn 2 Chwefror 2024.[10]

### Ymgysylltu â Llywodraeth y DU

**21.** Mae paragraffau 5 a 6 o Femorandwm Rhif 3 yn nodi gwaith ymgysylltu Llywodraeth Cymru â Llywodraeth y DU ers gosod Memorandwm Rhif 2 ar 25 Mai 2023.

**22.** Ym mharagraff 5 o Femorandwm Rhif 3 mae'r Prif Weinidog yn nodi bod swyddogion Llywodraeth y DU a swyddogion Llywodraeth Cymru wedi parhau i

[8] Llythyr gan Brif Weinidog Cymru, 5 Medi 2023
[9] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 3), Y Bil Diogelu Data a Gwybodaeth Ddigidol, 11 Rhagfyr 2023
[10] Y Pwyllgor Busnes, Amserlen i'w hystyried: Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 3) ar y Bil Diogelu Data a Gwybodaeth Ddigidol, Rhagfyr 2023

fod mewn cysylltiad rheolaidd â'i gilydd yn ystod taith y Bil drwy Senedd y DU. Ychwanegodd y Prif Weinidog:

> *"Mae ymgysylltu ar lefel swyddogol a lefel Weinidogol hefyd wedi parhau mewn perthynas â phryderon yn ymwneud ag effaith y Bil ar gadw Digonolrwydd Data'r UE ac mewn perthynas â goblygiadau datganoledig y darpariaethau canlynol (fel y nodir yn LCM 1 a LCM Atodol 2).*
>
> *- Rhan 2, Gwasanaethau Dilysu Digidol (DVS) - cymal 60, Cod Ymarfer ynghylch datgelu gwybodaeth (cymal 56 fel y'i cyflwynwyd);*
>
> - Rhan 3, Data am Gwsmeriaid a Data am Fusnesau - cymalau 65-81 (cymalau 61-77 fel y'u cyflwynwyd); a
>
> *- Rhan 4, Darpariaeth arall am wybodaeth ddigidol - cymal 99, Rhoi cytundebau rhannu gwybodaeth at ddiben gorfodi'r gyfraith ar waith (cymal 93 fel y'i cyflwynwyd) a chymal 100, Ystyr "appropriate national authority"."*[11]

## Diweddariad ar y sefyllfa ers cyhoeddi'r Memorandwm a Memorandwm Rhif 2 a darpariaethau y mae angen cydsyniad y Senedd ar eu cyfer

**23.** Mae rhifau cymalau rhif ym Memorandwm Rhif 3 yn cyfeirio at y Bil a ailgyflwynwyd yn Nhŷ'r Cyffredin ar 8 Tachwedd 2023.

**24.** Fel y nodir ym mharagraffau 12 i 17 o Femorandwm Rhif 2, yn ôl asesiad y Prif Weinidog, mae angen cydsyniad y Senedd ar gyfer y darpariaethau a ganlyn:

- Mewn perthynas â Gwasanaethau Dilysu Digidol – diwygiadau 79 ac 80 i gymalau 56 a 60.
- Mewn perthynas â Rhan 3 o'r Bil (Data am Gwsmeriaid a Data am Fusnesau) – gwelliannau 82 i 196; gwelliannau NC27, NC103, NC109, NC126 ac NC133 ynghylch cyrff rhyngwyneb; gwelliant NC31 ynghylch atebolrwydd mewn iawndal; a gwelliant NC32 ynghylch darpariaeth data arall.
- Mewn perthynas â darpariaethau newydd ar gyfer Cofrestr Asedau Tanddaearol Cenedlaethol – diwygiadau NC39, NS2 a 215 ynghylch y

[11] Memorandwm Rhif 3, paragraff 6

Gofrestr Asedau Tanddaearol Cenedlaethol; gwelliant NC40 ynghylch gwybodaeth mewn perthynas â chyfarpar; gwelliant NC41 ynghylch ymgynghoriad cyn y dyddiad cychwyn; a gwelliant NC42 ynghylch trosglwyddo swyddogaethau penodol i'r Ysgrifennydd Gwladol.

**25.** O ran y darpariaethau newydd ar gyfer Cofrestr Asedau Tanddaearol Cenedlaethol, mae'r Prif Weinidog yn nodi'r hyn a ganlyn:

> *"Yn arbennig yn NC42, mae pwerau gwneud rheoliadau o dan adran 79 o Ddeddf 1991, i'r graddau y gellir eu harfer mewn perthynas â Chymru, i'w trosglwyddo o Weinidogion Cymru yn ôl i'r Ysgrifennydd Gwladol. Mae NC42 hefyd yn dirymu OS Cymru ac yn cymhwyso OS Lloegr yn unig i Gymru.*
>
> *Mae NC39 a NC40 yn diwygio Deddf 1991 fel bod yn rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol ymgynghori â Gweinidogion Cymru cyn gwneud rheoliadau o dan Ran 3A newydd, adran 79 neu 80. (...)*
>
> *"mae pryderon polisi cyfansoddiadol ynghylch trosglwyddo'r pwerau gwneud rheoliadau o dan adran 79 o Ddeddf 1991, i'r graddau y gellir eu harfer mewn perthynas â Chymru, oddi wrth Weinidogion Cymru yn ôl i'r Ysgrifennydd Gwladol. Mae trafodaethau'n cael eu cynnal ar lefel swyddogol rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU i ddeall hyn yn fanylach."*[12]

**26.** Ym Memorandwm Rhif 3, mae'r Prif Weinidog yn darparu trosolwg o safbwynt Llywodraeth y DU ar yr angen am gydsyniad ar gyfer y gwelliannau hyn i'r Bil:

> *"Nid yw Llywodraeth y DU yn cytuno bod y darpariaethau newydd mewn perthynas â chymalau 56 a 60 y DVS yn gofyn am gydsyniad deddfwriaethol y Senedd. Yn hytrach, mae Llywodraeth y DU yn ystyried bod hyn yn fater a gedwir yn ôl am ei fod yn ymwneud â gwasanaethau rhyngrwyd a bod hynny'n gymwys i'r darpariaethau newydd hyn (gwelliannau 79 ac 80).*
>
> *Rydym yn aros am asesiad Llywodraeth y DU o'r angen am gydsyniad deddfwriaethol mewn cysylltiad â'r gwelliannau sy'n*

[12] Memorandwm Rhif 3, paragraffau 15, 16 a 22

*ymwneud â Rhan 3, cymalau 65 i 81, Data am Gwsmeriaid a Data am Fusnesau a'r darpariaethau newydd sy'n ymwneud â'r NUAR."*[13]

**27.** Nododd y Prif Weinidog:

*"Mae'r pryderon a amlinellir yn y ddau LCM blaenorol yn parhau mewn perthynas â goblygiadau datganoledig:*

*- y pwerau gwneud rheoliadau sy'n cael eu rhoi i'r Ysgrifennydd Gwladol a'r Trysorlys o dan Ran 3, cymalau 65-81 (61-77 fel y'u cyflwynwyd) y mae diwygiadau newydd NC27, 103, 109, 126, 133, NC31, NC32, ac 82 i 196, yn ymwneud (gweler paragraff 12).*

*- y pwerau i'r Ysgrifennydd Gwladol a'r Trysorlys gyhoeddi Cod Ymarfer mewn perthynas â chymal 56 (54 fel y'i cyflwynwyd) (DVS) y mae gwelliannau newydd 79-80 yn ymwneud â hwy (gweler paragraff 16). Mae trafodaethau'n parhau rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU.*

*Mae pryderon hefyd yn parhau mewn perthynas â'r effaith y gallai'r Bil ei chael ar statws Digonolrwydd Data'r DU ac annibyniaeth Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth."*[14]

# 2. Ystyriaeth y Pwyllgor

**28.** Gwnaethom ystyried Memorandwm Rhif 3 ar 15 Ionawr 2024.[15]

**29.** Gwnaethom gytuno ar ein hadroddiad ar 22 Ionawr 2024.[16]

## Ein barn ni

### Cydsyniad deddfwriaethol

**30.** Rydym yn nodi asesiad y Prif Weinidog o'r darpariaethau yn y Bil y mae angen cydsyniad y Senedd ar eu cyfer, fel y'u nodir ym Memorandwm Rhif 3.

[13] Memorandwm Rhif 3, paragraffau 18 a 19
[14] Memorandwm Rhif 3, paragraffau 20 a 21
[15] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 15 Ionawr 2024
[16] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 22 Ionawr 2024

**31.** O ran cymalau 56 a 60 yn y Bil sy'n ymwneud â Gwasanaethau Dilysu Digidol, a gwelliannau 79 ac 80 i'r cymalau hynny, rydym yn parhau i fod o'r farn nad yw diben y cymalau hyn (ac felly'r gwelliannau perthnasol) yn gwneud darpariaeth at unrhyw ddiben o fewn y cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.

**Casgliad 1.** Rydym yn anghytuno â'r Prif Weinidog bod angen cydsyniad y Senedd ar gyfer cymalau 56 a 60, a gwelliannau 79 ac 80 i'r cymalau hynny, sy'n ymwneud â Gwasanaethau Dilysu Digidol.

**Casgliad 2.** Er ein bod o'r farn nad oes angen cydsyniad y Senedd ar gyfer cymalau 56 a 60, a gwelliannau 79 ac 80 i'r cymalau hynny, rydym o'r farn bod y cymalau eraill a nodir ym Memorandwm Rhif 3, a'r gwelliannau a wneir i'r cymalau hynny, yn dod o fewn diben sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, fel y'i disgrifir yn Rheol Sefydlog 29, ac y mae angen cydsyniad y Senedd ar eu cyfer felly. Yn yr un modd, rydym o'r farn bod angen cydsyniad y Senedd ar gyfer gwelliannau NC27, NC31, NC32, NC39 i NC42, ac NS2.

**Casgliad 3.** Nodwn y bydd y gwelliannau i'r Bil sy'n ymwneud â'r Gofrestr Asedau Tanddaearol Cenedlaethol yn addasu cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.

**32.** Nodwn fod y Prif Weinidog wedi dod i'r casgliad nad yw'n briodol argymell cydsyniad ar gyfer unrhyw un o'r darpariaethau a amlinellir ym Memorandwm Rhif 3 nes y bydd Llywodraeth Cymru wedi cynnal trafodaethau pellach â Llywodraeth y DU.

## Ansawdd Memorandwm Rhif 3

**33.** Mae Rheol Sefydlog 29.3(ii) yn nodi bod yn rhaid i femorandwm cydsyniad deddfwriaethol bennu "i ba raddau y mae (neu y byddai) y Bil yn gwneud yn gwneud darpariaeth berthnasol".

**34.** Mae diffyg manylion ym Memorandwm Rhif 3 mewn perthynas ag effaith llawer o'r gwelliannau y nodwyd bod angen cydsyniad deddfwriaethol ar eu cyfer, yn enwedig o ran gwelliannau i Ran 3 o'r Bil a'r rhai sy'n ymwneud â Gwasanaethau Dilysu Digidol. Er enghraifft, o ran Rhan 3, ym Memorandwm Rhif 3 nodir yn syml bod dros 110 o welliannau amrywiol sy'n gwneud darpariaeth berthnasol wedi'u cyflwyno, ond nid oes unrhyw esboniad ynghylch effaith y gwelliannau hyn. Credwn fod y dull hwn yn atal tryloywder. Ar ben hynny, yn anffodus mae'n cael effaith andwyol ar allu'r Senedd i graffu'n effeithiol ar Femorandwm Rhif 3 ac effaith y gwelliannau i'r Bil sydd o fewn meysydd datganoledig. O ganlyniad, mae'n effeithio ar allu'r Senedd i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

**35.** Mynegwyd pryder cyffredinol gennym mewn perthynas ag ansawdd y memoranda cydsyniad deddfwriaethol yn ein Hadroddiad Blynyddol ar gyfer 2022/23. Gwnaethom nodi bod gennym bryderon ynghylch ansawdd rhai memoranda, a all o dan rai amgylchiadau rwystro gallu un o bwyllgorau'r Senedd i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif yn llawn o fewn yr amser sydd ar gael.[17] Mae hyn yn dilyn pryderon a fynegwyd gennym yn ein Hadroddiad Blynyddol ar gyfer 2021/2022, lle gwnaethom nodi bod y themâu a materion o bwys a gododd o'r gwaith craffu y llynedd yn cynnwys memoranda cydsyniad deddfwriaethol anghyflawn sydd wedi'u drafftio'n wael, neu'n anghyflawn neu'n anghywir. Gwnaethom rannu ein barn bod hyn yn golygu bod y Senedd yn cael ei rhoi dan anfantais wrth geisio ymgymryd â'i gwaith craffu hanfodol.[18]

**36.** Nodwn yn benodol ein bod wedi bod yn codi pryderon ynghylch ansawdd memoranda cydsyniad deddfwriaethol ers dwy flynedd.

## Sylwadau ynghylch cymalau penodol o'r Bil a materion o'r adroddiad cyntaf

### Darpariaethau sy'n ymwneud â Gwasanaethau Dilysu Digidol

**37.** Fel y nodwyd uchod ym mharagraff 31 a chasgliad 1, er nad ydym o'r farn bod angen cydsyniad y Senedd ar gyfer y darpariaethau yn y Bil sy'n ymwneud â Gwasanaethau Dilysu Digidol, rydym serch hynny yn awyddus i ddeall goblygiadau datganoledig Cod Ymarfer ar gyfer y DU gyfan ynghylch datgelu gwybodaeth a'r pwerau a roddir i'r Ysgrifennydd Gwladol.

**38.** Roedd argymhelliad 1 yn ein hadroddiad cyntaf yn gofyn i'r Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf i ni (a'r Senedd) am waith Llywodraeth Cymru i ystyried goblygiadau datganoledig o'r fath.

**39.** Pan ymatebodd y Prif Weinidog i'n hadroddiad cyntaf ar 5 Medi 2023, dywedodd wrthym fod ei swyddogion yn parhau i ystyried effeithiau'r cymal sy'n cyflwyno Cod Ymarfer ar gyfer y DU gyfan i Gymru a chyrff cyhoeddus Cymru a'i addasrwydd, a bod swyddogion yn mewn trafodaethau parhaus â'u cymheiriaid yn Llywodraeth y DU. Dywedodd y Prif Weinidog y byddai'n "rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am ganlyniad y trafodaethau hynny drwy'r broses Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol".

[17] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Adroddiad Blynyddol 2022/23, paragraff 34

[18] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Adroddiad Blynyddol 2021/22, paragraff 31

**Argymhelliad 1.** Yn unol ag argymhelliad 1 yn ein hadroddiad cyntaf, dylai'r Prif Weinidog ddarparu i ni, cyn gynted ag y bo modd, asesiad Llywodraeth Cymru o oblygiadau datganoledig Cod Ymarfer ar gyfer y DU gyfan ynghylch datgelu gwybodaeth a'r pwerau a roddir i'r Ysgrifennydd Gwladol yn y Bil.

**Casgliad 4.** Os bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i fod o'r farn bod angen cydsyniad ar gyfer y darpariaethau yn y Bil sy'n ymwneud â Gwasanaethau Dilysu Digidol, heb wybodaeth fanwl am y darpariaethau Gwasanaethau Dilysu Digidol sy'n destun Memorandwm Rhif 3, nid ydym o'r farn y bydd gan y Senedd ddigon o wybodaeth i wneud penderfyniad gwybodus ynghylch a ddylai gydsynio i'r darpariaethau hyn yn y Bil.

**Darpariaethau sy'n ymwneud â Rhan 3 o'r Bil (Data am gwsmeriaid a data am fusnesau)**

**40.** Nodwn fod Memorandwm Rhif 3 yn nodi amryw welliannau i Ran 3 o'r Bil y mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod angen cydsyniad y Senedd ar eu cyfer.

**41.** Fel rydym wedi'i nodi'n gynharach, ym mharagraffau 33 i 36, mae diffyg manylion ynghylch effaith y gwelliannau hyn ym Memorandwm Rhif 3.

**42.** Nodwn fod gwelliant NC27 yn mewnosod cymal newydd sy'n galluogi rheoliadau o dan Ran 3 o'r Bil i wneud darpariaeth ynghylch cyrff (a elwir yn "gyrff rhyngwyneb") sy'n darparu cyfleusterau neu wasanaethau a ddefnyddir ar gyfer darparu, cyhoeddi neu brosesu data am gwsmeriaid neu ddata am fusnesau, neu osod safonau neu wneud trefniadau eraill mewn cysylltiad â chyfleusterau neu wasanaethau o'r fath. Nodwn ymhellach fod gwelliannau 103, 109, 126 a 133 yn ganlyniadol i welliant NC27, yn yr un modd â gwelliannau eraill nad ydynt wedi'u pennu fel rhai canlyniadol ym Memorandwm Rhif 3 (gan gynnwys, er enghraifft, gwelliant 150 sy'n galluogi rheoliadau a wneir o dan Ran 3 i creu trosedd mewn perthynas â gweithred neu anwaith sy'n atal corff rhyngwyneb rhag cael mynediad at wybodaeth, dogfennau, cyfarpar neu ddeunydd arall).

**43.** Nodwn hefyd y byddai'r pwerau o dan Ran 3 i wneud rheoliadau yn arferadwy gan yr Ysgrifennydd Gwladol neu'r Trysorlys.

**44.** Mae gwelliant NC31 yn mewnosod cymal newydd yn y Bil a fyddai'n galluogi rheoliadau o dan Ran 3 i ddarparu nad yw personau penodol yn atebol am iawndal wrth arfer swyddogaethau o dan reoliadau o'r fath. Yn ogystal, nodwn fod gwelliant NC32 yn mewnosod cymal newydd i alluogi'r pwerau gwneud rheoliadau o dan Ran 3 i gael eu defnyddio i ategu is-ddeddfwriaeth bresennol

sy’n ei gwneud yn ofynnol i ddata am gwsmeriaid neu ddata am fusnesau gael eu darparu i gwsmeriaid ac eraill.

**45.** Er ein bod yn cydnabod bod y gwelliannau eraill i Ran 3 yn cynnwys gwelliannau technegol a chanlyniadol yn bennaf, mae eraill yn ychwanegu at y darpariaethau y gellir eu nodi drwy reoliadau a wneir o dan Ran 3, megis gwelliant 140 sy’n galluogi rheoliadau i’w gwneud yn ofynnol i’r rhai sy’n gwneud penderfyniadau (h.y. y personau penodedig a gaiff benderfynu a yw person yn bodloni’r amodau ar gyfer awdurdodiad neu gymeradwyaeth er mwyn cael data am gwsmeriaid a data am fusnesau) gael gweithdrefnau ar gyfer ymdrin â chwynion.

**46.** Nodwn fod y Prif Weinidog wedi dweud[19] bod Llywodraeth Cymru yn aros am asesiad Llywodraeth y DU o’r angen am gydsyniad deddfwriaethol mewn cysylltiad â’r gwelliannau sy’n ymwneud â Rhan 3. Fodd bynnag, nodwn hefyd fod y Nodiadau Esboniadol (sy’n cyd-fynd â’r Bil a gyflwynwyd i Dŷ’r Arglwyddi fel y’i dygwyd o Dŷ’r Cyffredin) yn nodi mewn perthynas â chynlluniau Data Clyfar sy’n dod o dan Ran 3 o’r Bil:

> *“While many aspects of the proposals are reserved, some areas are devolved (e.g. where the customer is a business and not an individual […]). Therefore a LCM is required in all three Devolved Administrations.”*[20]

**47.** Roedd argymhelliad 2 yn ein hadroddiad cyntaf yn gofyn i’r Prif Weinidog roi’r wybodaeth ddiweddaraf i ni (a’r Senedd) am ystyriaeth Llywodraeth Cymru o oblygiadau datganoledig y pwerau i wneud rheoliadau yn Rhan 3 o’r Bil.

**48.** Dywedodd y Prif Weinidog wrthym, yn ei lythyr dyddiedig 5 Medi 2023, fod ei swyddogion yn parhau i ystyried addasrwydd y pwerau gwneud rheoliadau a’u bod yn cynnal trafodaethau parhaus â’u cymheiriaid yn Llywodraeth y DU. Eto, ymrwymodd y Prif Weinidog y byddai’n “rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am ganlyniad y trafodaethau hynny drwy'r broses Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol”.

**Argymhelliad 2.** Yn unol ag argymhelliad 2 yn ein hadroddiad cyntaf, dylai’r Prif Weinidog ddarparu i ni, cyn gynted ag y bo modd, asesiad Llywodraeth Cymru o oblygiadau datganoledig y pwerau i wneud rheoliadau yn Rhan 3 o’r Bil.

---

[19] Memorandwm Rhif 3, paragraff 19
[20] Bil Diogelu Data a Gwybodaeth Ddigidol, Bil Tŷ’r Arglwyddi 30 (fel y’i dygwyd o Dŷ’r Cyffredin), Nodiadau Esboniadol, Rhagfyr 2023

**Casgliad 5.** Heb asesiad llawn Llywodraeth Cymru o oblygiadau datganoledig y pwerau i wneud rheoliadau yn Rhan 3 o’r Bil, ynghyd â gwybodaeth fanwl am y darpariaethau yn Rhan 3 sy’n destun Memorandwm Rhif 3, nid ydym o’r farn y bydd gan y Senedd ddigon o wybodaeth i wneud penderfyniad gwybodus ynghylch a ddylai gydsynio i’r darpariaethau perthnasol yn y Bil.

**Darpariaethau sy'n ymwneud â'r Gofrestr Asedau Tanddaearol Cenedlaethol**

**49.** Nodwn (drwy welliannau 215, NC39 i NC42 ac NS2) fod darpariaethau newydd wedi’u mewnosod yn y Bil sy’n gwneud gwelliannau i *Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991* (Deddf 1991), ac yn mewnosod Rhan ac Atodlen newydd iddi. Mae'r darpariaethau hyn yn ei gwneud yn ofynnol cadw cofrestr o wybodaeth sy'n ymwneud â chyfarpar ar strydoedd a fydd yn cael ei galw’r Gofrestr Asedau Tanddaearol Cenedlaethol (NUAR), ac yn gwneud darpariaeth mewn cysylltiad â hynny.

**50.** Mae pwnc Deddf 1991 yn fater datganoledig. Nodwn mai ei diben oedd diwygio’r gyfraith a oedd yn ymwneud â ffyrdd fel y gellid darparu ffyrdd newydd drwy ddulliau newydd, gwneud darpariaeth mewn perthynas â gwaith stryd, ac at ddibenion cysylltiedig.

**51.** Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan Ddeddf 1991 mewn perthynas â Chymru, ac eithrio o dan adran 167(3) (cymhwyso i’r Goron), i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (OS 1999/672). Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Cynulliad wedi hynny i Weinidogion Cymru yn rhinwedd paragraff 30 o Atodlen 11 i *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006*.

**52.** Mae’r gwelliannau hyn i’r Bil yn rhoi amryw bwerau i wneud rheoliadau i’r Ysgrifennydd Gwladol o dan Ran 3A newydd o Ddeddf 1991, gan gynnwys y pŵer i weithredu mewn perthynas â Chymru mewn maes datganoledig. Gan y byddai’r pwerau i wneud rheoliadau yn arferadwy gan yr Ysgrifennydd Gwladol, nid oes gofyniad i’r rheoliadau gael eu gosod gerbron y Senedd.

**53.** Rydym yn cydnabod bod gwelliant NC39 yn darparu bod yn rhaid i’r Ysgrifennydd Gwladol, cyn gwneud rheoliadau o dan Ran 3A newydd o Ddeddf 1991, ymgynghori â Gweinidogion Cymru.

**54.** Mae gennym bryderon bod pwerau i wneud rheoliadau o dan adran 79 o Ddeddf 1991, i'r graddau y gellir eu harfer mewn perthynas â Chymru, i'w trosglwyddo o Weinidogion Cymru yn ôl i'r Ysgrifennydd Gwladol drwy welliant

NC42. Rydym yn ymhelaethu ar ein rhesymau dros y pryderon hyn yn y paragraffau isod.

**55.** Fodd bynnag, rydym eto yn cydnabod bod gwelliant NC40 yn diwygio adran 104 o Ddeddf 1991 i ddarparu bod yn rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol ymgynghori â Gweinidogion Cymru cyn gwneud rheoliadau o dan adrannau 79 ac 80 o Ddeddf 1991.

**56.** Arferodd Cynulliad Cenedlaethol Cymru (fel y'i gelwid) ei bwerau (sydd bellach yn arferadwy gan Weinidogion Cymru) yn adran 79 o Ddeddf 1991 i wneud Rheoliadau Gwaith Stryd (Cofnodion) (Cymru) 2005 (Rheoliadau 2005). Daeth Rheoliadau 2005 i rym ar 1 Rhagfyr 2005 ac maent yn parhau i fod mewn grym. Mewn perthynas â Chymru, maent yn rhagnodi ffurf y cofnodion o gyfarpar a roddir mewn strydoedd y mae ymgymerwyr i'w cadw.

**57.** Mae gwelliant NC42 yn dirymu Rheoliadau 2005 ac yn ymestyn Rheoliadau Gwaith Stryd (Cofnodion) (Lloegr) 2002, sy'n gymwys ar hyn o bryd o ran Lloegr yn unig (ac sy'n gwneud darpariaeth debyg i ffurf a dull cofnodion o gyfarpar) i fod yn gymwys yng Nghymru.

**58.** Nodwn fod y Nodiadau Esboniadol (sy'n cyd-fynd â'r Bil a gyflwynwyd yn Nhŷ'r Arglwyddi fel y'i dygwyd o Dŷ'r Cyffredin) yn nodi'r hyn a ganlyn:

> *"In order for NUAR to operate effectively across England and Wales, it is necessary to ensure consistency in approach across both of these parts of the United Kingdom. As such, powers to make regulations which supplement the provision made by these clauses (and the sections of the 1991 Act they amend) are only exercisable by the Secretary of State, who will make provision in respect of both England and Wales.*
>
> *Currently, the existing powers to make regulations in section 79 of the 1991 Act are exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales. Given the need for a consistent approach, this clause transfers these regulation-making powers to the Secretary of State, who will be able to make provision in respect of both England and Wales. As set out below, wherever the Secretary of State proposes to make regulations in exercise of these powers, the Secretary of State must first consult the Welsh Ministers so as to ensure their views are taken into account.*

> *Separate regulations have previously been made, by the Secretary of State and the Welsh Assembly, in exercise of these powers in section 79 of the 1991 Act. To reflect the new approach as set out above, subsection (3) of clause 141 amends the Street Works (Records) (England) Regulations 2002 so as to extend and apply to both England and Wales, whilst subsection (4) revokes the Street Works (Records) (Wales) Regulations 2005."*[21]

**59.** Er y nodwn fod y Prif Weinidog wedi dweud bod Llywodraeth Cymru yn aros am asesiad Llywodraeth y DU o'r angen am gydsyniad deddfwriaethol mewn cysylltiad â'r darpariaethau newydd yn ymwneud â'r NUAR, nodwn fod y Nodiadau Esboniadol (sy'n cyd-fynd â'r Bil a gyflwynwyd i Dŷ'r Arglwyddi fel y'i dygwyd o Dŷ'r Cyffredin) yn nodi'r hyn a ganlyn:

> *"Legislative competence for the subject matter of Part 3 of the New Roads and Street Works Act 1991 (which concerns street works) is devolved to Wales. As these provisions make amendments to Part 3 of the 1991 Act in relation to this devolved subject matter, an LCM will be required from Wales.*
>
> *In addition, some existing functions in this area, currently exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales, will be transferred so as to be solely exercisable by the Secretary of State in relation to England and Wales. As this approach will modify the executive competence of the Welsh Ministers this provides an additional basis on which an LCM will be required from Wales."*[22]

**60.** Rydym yn cydnabod bod y Prif Weinidog wedi nodi "pryderon polisi cyfansoddiadol" Llywodraeth Cymru ynghylch trosglwyddo'r pwerau i wneud rheoliadau o dan adran 79 o Ddeddf 1991, i'r graddau y gellir eu harfer mewn perthynas â Chymru, oddi wrth Weinidogion Cymru i'r Ysgrifennydd Gwladol. [23]

**61.** Mae trosglwyddo pwerau i wneud rheoliadau sydd ar hyn o bryd yn arferadwy gan Weinidogion Cymru i'r Ysgrifennydd Gwladol – sy'n golygu addasu cymhwysedd deddfwriaethol datganoledig – drwy Fil a gynigir gan Lywodraeth y

[21] Data Protection and Digital Information Bill, Bil Tŷ'r Arglwyddi 30 (fel y'i dygwyd o Dŷ'r Cyffredin), Nodiadau Esboniadol, Rhagfyr 2023
[22] Data Protection and Digital Information Bill, Bil Tŷ'r Arglwyddi 30 (fel y'i dygwyd o Dŷ'r Cyffredin), Nodiadau Esboniadol, Rhagfyr 2023
[23] Memorandwm Rhif 3, paragraff 22

DU nad yw felly'n destun craffu gan y Senedd nac yn cael ei gymeradwyo ganddi yn fater difrifol.

**62.** Nid ydym o'r farn bod yr esboniad a roddwyd ar gyfer y cam hwn gan Lywodraeth y DU yn y Nodiadau Esboniadol i'r Bil yn rhoi cyfiawnhad priodol na digonol. Er enghraifft, nid ydym o'r farn bod Llywodraeth y DU wedi ei gwneud yn glir pam mae pwerau sy'n arferadwy gan wahanol Weinidogion yng Nghymru a Lloegr ers 1999 bellach yn gofyn am 'ddull cyson' ar draws Cymru a Lloegr. Nid yw'n cael ei wneud yn glir pam y mae angen i'r NUAR fod yn gymwys ar gyfer Cymru a Lloegr, na pham na allai Gweinidogion Cymru a'r Ysgrifennydd Gwladol arfer y pwerau ar y cyd.

**63.** Un goblygiad ymarferol fydd disodli deddfwriaeth ddwyieithog i Gymru â deddfwriaeth uniaith.

**64.** At hynny, mae tynnu'r gallu i arfer y pwerau deddfwriaethol hyn oddi ar Weinidogion Cymru a'r Senedd a'u disodli â dim mwy na rhwymedigaeth statudol ar yr Ysgrifennydd Gwladol i ymgynghori â Gweinidogion Cymru cyn eu harfer yn annigonol ac yn anfoddhaol.

**65.** Rydym yn nodi ymhellach ac yn siomedig bod y darpariaethau NUAR yn rhoi pwerau newydd i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud rheoliadau mewn meysydd datganoledig mewn perthynas â chadw cofrestr o gyfarpar ar strydoedd yng Nghymru a Lloegr.

**Casgliad 6.** Nid ydym o'r farn bod y pwerau newydd i wneud rheoliadau a roddir i'r Ysgrifennydd Gwladol yn y darpariaethau ar gyfer y Gofrestr Asedau Tanddaearol Cenedlaethol newydd, na'r cam o drosglwyddo pwerau presennol sy'n arferadwy gan Weinidogion Cymru i'r Ysgrifennydd Gwladol, sy'n golygu addasu cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd yn y maes hwn, yn briodol.

**66.** Ym Memorandwm Rhif 3, mae'r Prif Weinidog yn nodi bod trafodaethau ar y darpariaethau NUAR yn cael eu cynnal ar lefel swyddogol rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU.[24] Fodd bynnag, nodwn na roddir rhagor o fanylion am bryderon Llywodraeth Cymru ynghylch dychwelyd pwerau o dan adran 79 o Ddeddf 1991, i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru.

**67.** O ystyried natur y darpariaethau NUAR a'r effaith a gânt ar gymhwysedd datganoledig, nid yw'n glir inni pam y cynhelir trafodaethau ar lefel swyddogol, yn hytrach nag ar lefel Weinidogol. Nodwn fod y Prif Weinidog, ym Memorandwm

[24] Memorandwm Rhif 3, paragraff 22

Rhif 3, yn nodi bod ymgysylltu ar lefel Weinidogol wedi digwydd mewn perthynas ag agweddau eraill ar y Bil, gan gynnwys penderfyniad digonolrwydd presennol y DU a'r darpariaethau Gwasanaethau Dilysu Digidol.

**68.** Yn ein hadroddiad cyntaf, gwnaethom dynnu sylw at bryder tebyg bod trafodaethau am y risg bosibl o golli'r penderfyniad digonolrwydd hefyd yn cael eu cynnal ar lefel swyddogol yn hytrach na lefel Weinidogol, a gwnaethom argymell y dylid uwchgyfeirio'r mater. Rydym o'r un farn mewn perthynas â darpariaethau NUAR.

**Argymhelliad 3.** O ystyried y "pryderon polisi cyfansoddiadol" ynghylch darpariaethau'r Gofrestr Asedau Tanddaearol Cenedlaethol yn y Bil ac yn benodol dychwelyd pwerau o dan adran 79 o Ddeddf 1991 (i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru), dylai'r Prif Weinidog uwchgyfeirio'r mater hwn i drafodaethau ar lefel Weinidogol, hyd at a chan gynnwys y gweithdrefnau ffurfiol ar gyfer datrys anghydfodau, yn hytrach na thrafodaethau ar lefel swyddogol.

**Argymhelliad 4.** Dylai'r Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor hwn am y trafodaethau rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU – ar lefel swyddogol a Gweinidogol – mewn cysylltiad â'r darpariaethau ar gyfer y Gofrestr Asedau Tanddaearol Cenedlaethol.

**69.** Byddem hefyd yn croesawu manylion gan y Prif Weinidog ar unrhyw gamau adferol y mae Llywodraeth Cymru yn ystyried y gallai eu cymryd – a fyddai o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd – mewn cysylltiad â throsglwyddo pwerau dirprwyedig presennol sy'n arferadwy gan Weinidogion Cymru i'r Ysgrifennydd Gwladol. Er enghraifft, byddem yn croesawu barn y Prif Weinidog ynghylch a yw Llywodraeth Cymru yn ystyried y byddai o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd cyflwyno darpariaethau mewn Bil a fyddai'n ail-ddirprwyo i Weinidogion Cymru y pwerau i wneud rheoliadau o dan adran 79 o Ddeddf 1991 sy'n cael eu trosglwyddo i'r Ysgrifennydd Gwladol drwy welliant NC42.

**Argymhelliad 5.** Dylai'r Prif Weinidog roi manylion inni am unrhyw gamau y mae Llywodraeth Cymru o'r farn y gallai eu cymryd i unioni'r trosglwyddiad i'r Ysgrifennydd Gwladol drwy welliant NC42 o bwerau dirprwyedig presennol yn adran 79 o Ddeddf 1991, sydd ar hyn o bryd yn arferadwy gan Weinidogion Cymru (i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru). Dylai manylion o'r fath gynnwys a yw Llywodraeth Cymru yn ystyried y byddai o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd cyflwyno darpariaethau mewn Bil a fyddai'n ail-ddirprwyo i Weinidogion Cymru y pwerau i wneud rheoliadau o dan adran 79 o Ddeddf 1991 sy'n cael eu trosglwyddo i'r Ysgrifennydd Gwladol.

## Darpariaethau sy'n ymwneud â gweithredu cytundebau rhannu gwybodaeth gorfodi'r gyfraith

**70.** Yn ein hadroddiad cyntaf gwnaethom sylwadau ar yr hyn a oedd bryd hynny yn gymal 93 o'r Bil (cymal 99 erbyn hyn) a'r pwerau i wneud rheoliadau at ddiben gweithredu cytundeb rhyngwladol yn ymwneud â rhannu gwybodaeth.

**71.** Nododd argymhelliad 3 yn ein hadroddiad cyntaf, pan na fo Gweinidogion Cymru yn gwneud rheoliadau i weithredu cytundebau rhyngwladol, a bod pwerau i wneud hynny'n cael eu harfer gan yr Ysgrifennydd Gwladol yn lle hynny, bod yn rhaid i Weinidogion Cymru ddarparu manylion llawn ac esboniad i'r Senedd cyn i reoliadau o'r fath gael eu gwneud gan yr Ysgrifennydd Gwladol.

**72.** Yn ei ymateb, nododd y Prif Weinidog ein barn a dywedodd y byddai'r Senedd yn cael diweddariad drwy'r broses arferol.

**Argymhelliad 6.** Yn unol ag argymhelliad 3 yn ein hadroddiad cyntaf, byddem yn croesawu ymrwymiad gan y Prif Weinidog, pan na fo Gweinidogion Cymru yn gwneud rheoliadau i weithredu cytundebau rhyngwladol, a bod pwerau yn y Bil i wneud hynny'n cael eu harfer gan yr Ysgrifennydd Gwladol yn lle hynny, bod yn rhaid i Weinidogion Cymru ddarparu esboniad manwl mewn unrhyw ddiweddarad i'r Senedd cyn i reoliadau o'r fath gael eu gwneud gan yr Ysgrifennydd Gwladol.

## Darpariaethau yn ymwneud â hysbysiadau cyfweliadau

**73.** Yn ein hadroddiad cyntaf gwnaethom sylwadau ar yr hyn a oedd bryd hynny yn gymal 36 o'r Bil (cymal 38 erbyn hyn) a'r pwerau y gellir eu defnyddio i'w gwneud yn ofynnol i berson fynd i gyfweliad ac ateb cwestiynau ar gais gan y Comisiynydd Gwybodaeth (y Comisiynydd).

**74.** Gwnaethom nodi nad oedd yr eithriadau y darperir ar eu cyfer yn y Bil ar gyfer swyddogaethau sy'n ymwneud â chofrestru sefydliadau ac asiantaethau penodol yn Lloegr yn gymwys ar gyfer Cymru, sy'n golygu y gallai'r Comisiynydd roi hysbysiad cyfweliad mewn perthynas â'r materion hynny yng Nghymru, ond nid yn Lloegr.

**75.** Roedd argymhelliad 4 yn ein hadroddiad cyntaf yn gofyn i'r Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf i ni (a'r Senedd) am ystyriaeth Llywodraeth Cymru o'r hyn a oedd bryd hynny yn gymal 36 o'r Bil (cymal 38 erbyn hyn).

**76.** Yn ei lythyr atom ar 5 Medi 2023, dywedodd y Prif Weinidog fod swyddogion Llywodraeth Cymru yn archwilio'r cefndir a'r rhesymeg y tu ôl i'r hyn a oedd bryd hynny yn gymal 36 (cymal 38 erbyn hyn) o ran hysbysiadau cyfweliadau â Llywodraeth y DU i lywio safbwynt Llywodraeth Cymru, ac roedd hwn destun trafodaethau parhaus. Yn unol â'i ymateb i argymhellion eraill yn ein hadroddiad cyntaf, dywedodd y Prif Weinidog y byddai'n “rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am ganlyniad y trafodaethau hynny drwy'r broses Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol”.

**Argymhelliad 7.** Yn unol ag argymhelliad 4 yn ein hadroddiad cyntaf, dylai'r Prif Weinidog ddarparu i ni, cyn gynted ag y bo modd, asesiad Llywodraeth Cymru o ddarpariaethau'r Bil mewn cysylltiad â hysbysiadau cyfweliadau.

## Y dynamig rhwng y DU a'r UE

**77.** Gwnaethom nodi yn ein hadroddiad cyntaf bod gan y Prif Weinidog bryderon bod cyflwyno'r Bil yn creu risg i benderfyniad digonolrwydd presennol y DU, a roddwyd ym mis Mehefin 2021 gan yr UE am gyfnod o 4 blynedd i ddechrau. Gwnaethom gydnabod bod y Bil yn croestorri â rhwymedigaethau rhwng y DU a'r UE, a'i fod yn cyffwrdd â sawl agwedd ar ein cylch gorchwyl, gan gynnwys llywodraethu'r DU a'r UE a chydymffurfedd â rhwymedigaethau rhyngwladol.

**78.** Yn ein hadroddiad cyntaf gwnaethom groesawu eglurder a manylion safbwynt Llywodraeth Cymru, ac yn arbennig y manylder a roddwyd gan y Prif Weinidog ar oblygiadau colli'r penderfyniad digonolrwydd i Gymru.

**79.** Roedd argymhelliad 5 yn ein hadroddiad cyntaf yn nodi ein cefnogaeth i gais Llywodraeth Cymru i Lywodraeth y DU y dylai rannu copi ar frys o'i hasesiad risg ar y Bil a cholli'r penderfyniad digonolrwydd. Roedd ymateb y Prif Weinidog i'n hargymhelliad yn nodi y byddai Llywodraeth Cymru yn parhau i godi'r mater o effaith bosibl y Bil ar ddigonolrwydd data'r UE.

**80.** Nodwn, ym Memorandwm Rhif 3, fod y Prif Weinidog yn tynnu sylw at yr hyn a ganlyn:

- bod pryderon yn parhau mewn perthynas â'r effaith y gallai'r Bil ei chael ar Ddigonolrwydd Data'r DU;[25]

[25] Memorandwm Rhif 3, paragraff 21

- bod ymgysylltu ar lefel swyddogol a lefel Weinidogol wedi parhau mewn perthynas â phryderon yn ymwneud ag effaith y Bil ar gadw Digonolrwydd Data'r UE.[26]

**Argymhelliad 8.** Dylai'r Prif Weinidog gadarnhau a yw Llywodraeth Cymru wedi cael gan Lywodraeth y DU ei hasesiad risg ar y Bil ac ar golli penderfyniad digonolrwydd presennol y DU. Os yw wedi dod i law ac os yw'r telerau rhannu yn caniatáu, dylid rhannu'r asesiad risg â'r Senedd.

**Argymhelliad 9.** Dylai'r Prif Weinidog egluro a oes amgylchiadau lle byddai Llywodraeth Cymru yn argymell bod y Senedd yn rhoi ei chydsyniad i'r darpariaethau perthnasol yn y Bil er gwaethaf ei phryderon ynghylch y goblygiadau ar gyfer penderfyniad digonolrwydd presennol y DU.

**Argymhelliad 10.** Dylai'r Prif Weinidog gadarnhau a yw Llywodraeth Cymru yn ymwybodol o unrhyw drafodaethau ar lefel y DU a'r UE am y Bil, yn enwedig mewn perthynas â phenderfyniad digonolrwydd presennol y DU.

[26] Memorandwm Rhif 3, paragraff 6